Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Y Dreth Gyngor

6 Ebrill 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

*Would you be able to provide the following information, please?*

1. *How many Senedd Members own second homes in Wales?*
2. *Do all Senedd Members pay the increased rate of council tax on their second homes?*
3. *Are any Senedd Members exempt from paying council tax for their second homes?*
4. *If any Senedd Members are exempt, what are the grounds for exemption?*

Mae ein hymateb i'ch cais isod.

1. *Faint o Aelodau o'r Senedd sy'n berchen ar ail gartrefi yng Nghymru?*

Rhaid i Aelodau'r Senedd gofrestru'r tir a'r eiddo y maent yn berchen arnynt yn y **Gofrestr o Fuddiannau Aelodau (senedd.cymru),** o dan *Gategori 8:* Tir ac eiddo.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

2. *A yw'r holl Aelodau o'r Senedd yn talu treth gyngor ar y gyfradd uwch mewn perthynas â'u hail gartrefi?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yr unig wybodaeth sydd gennym mewn perthynas â’ch cais yw honno’n ymwneud â chostau y mae Aelodau’n eu hawlio’n unol â phennod 4, *Gwariant ar Lety Preswyl* yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau (“y Penderfyniad”).

Bydd yr holl dreuliau y bydd yr Aelodau’n eu hawlio o dan y ddarpariaeth hon yn cael eu cyhoeddi ar y **System Cyhoeddi Lwfansau**.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' ac fe welwch restr o gyn Aelodau a’r Aelodau presennol, yna dewiswch enw’r Aelod(au) penodol. Os nad ydych yn dewis Aelod, bydd enwau’r holl Aelodau yn cael eu dangos.
3. I ddewis math penodol o lwfans, dewiswch 'DEWIS MATH O LWFANS', dewiswch ‘Pa fath o lwfans,’ yna 'Lwfans Costau Ychwanegol’ a ‘Llety Caerdydd - Treth Gyngor’.
4. Dewiswch 'Chwilio'
5. Cyhoeddir y treuliau a gaiff eu hawlio ar ein system lwfansau **dri mis** yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi’i chofnodi mewn perthynas ag ail gartrefi y mae Aelodau yn berchen arnynt neu’n eu rhentu os nad ydynt yn hawlio costau o dan y Penderfyniad.

3. *A oes unrhyw Aelodau o'r Senedd wedi'u heithrio rhag talu treth gyngor ar y gyfradd uwch mewn perthynas â'u hail gartrefi?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais.

4. *Os oes unrhyw Aelodau o'r Senedd wedi'u heithrio, ar ba sail y maent wedi'u heithrio?*

Amherthnasol, gweler ein hymateb i gwestiwn 3.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF